



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



MYNNWCH GAEL DWEUD EICH DWEUD!

ynghylch dyfodol Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon

Mae'r **ymgyngoriad yn dechrau: 11 EBRILL 2016**
ac yn dod i ben am 5pm ar 23 MAI 2016

I gael rhagor o wybodaeth: www.rctcbc.gov.uk/ymgyngori – bydd modd i chi gael manylion am y cynigion a llenwi arolwg. Hoffech chi gael copi papur o'r holiadur? Croeso ichi gysylltu â ni trwy:

 **01443 424069**

 **ymgyngori@rctcbc.gov.uk**

 **RHADBOST RSBU-HJUK-LSSS**, Carfan Ymchwil ac Ymgynghori,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach, CF40 2XX



2016

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen.
Fydd ymateb yn Gymraeg ddim yn arwain at oedi.

Dyfodol Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon

Ym mis Hydref 2015, cafodd Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon yn Aberaman ei gau am gyfnod oherwydd bod perygl annerbyniol y byddai gwasanaethau mecanyddol y cartref (system wresogi, a'r cyflenwad dŵr poeth ac oer) yn torri. Cafodd y preswylwyr eu symud i gartrefi gofal eraill tra bod dewisiadau ar gyfer dyfodol y cartref yn cael eu hymchwilio, eu costio a'u gwerthuso.

Yn Chwefror 2016 cafodd y dewisiadau ar gyfer dyfodol y cartref eu trafod gan Gabinet y Cyngor. Cytunodd Aelodau i gynnal cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar hoff ddewis y Cabinet.

Mae sylwadau ynglŷn â'r dewis sy'n cael ei ffafrio ynghyd â'r dewisiadau eraill a drafododd y Cabinet yn cael eu cynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad. Dyma wahoddiad i chi, felly, i gyflwyno'ch barn ynglŷn â'r opsiynau eraill ynghyd â gwneud unrhyw sylwadau sydd gyda chi ar yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar ben eich sylwadau ar y newidiadau i'r gwasanaethau.

Manteisiwch ar y cyfle hwn i ddweud eich dweud.

Gwybodaeth gefndir a chyd-destun strategol

Mae Cartref Gofal Maes-y-ffynnon yn Aberaman yn cynnwys 26 o welyau ar gyfer yr henoed. Cafodd y Cartref ei adeiladu yn y 1960au, ac mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd wedi'i gynllunio wedi cael ei wneud iddo dros y blynyddoedd. Serch hynny, mae angen gwneud gwaith adnewyddu a diweddarau sylweddol i'r cartref, yn enwedig o ran adnewyddu'i wasanaethau mecanyddol a'r system bwyler. Mae hyn yn gyffredin i lawer o gartrefi gofal o oedran tebyg.

Yn ogystal â'r gwaith cynnal a chadw sylweddol, chafodd y cartref mo'i ddylunio i fodloni'r disgwyliadau sydd ohoni erbyn hyn, nac ychwaith, y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer llety cartref gofal gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Er enghraifft, o ran maint yr ystafelloedd, mynediad i bobl anabl a chyfleusterau en-suite.

Mae nifer y bobl hŷn sy'n aros yn barhaol mewn cartrefi gofal wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf yn unol â blaenoriaeth y Cyngor i roi cymorth iddyn nhw i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi'u hunain am gyfnod hirach yn hytrach na symud i gartref gofal preswyl. Mae hyn wedi cynyddu'r nifer o leoedd gwag mewn cartrefi gofal preswyl. Y disgwyl yw y bydd llai o alw am leoedd gofal preswyl yn y dyfodol.

Yn ogystal â hyn, mae dyheadau hen bobl hwythau'n newid. Mae ganddyn nhw, yn ogystal â'r rhelyw, ddisgwyliadau uwch o ran annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros eu bywydau. Dengys tystiolaeth ei bod hi'n well gan y rhan fwyaf o bobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na symud i sefydliad neu gartref gofal arall, fel cartref preswyl.

Cafodd Strategaeth Comisiynu Cwm Taf ar gyfer Pobl Hŷn ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ym mis Chwefror 2016 yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn 2015. Pennodd y Strategaeth newidiadau allweddol mewn cynnal gwasanaethau er mwyn gwella iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hŷn, ac osgoi'u symud nhw i sefydliadau eraill, megis cartrefi gofal preswyl. Mae'r Strategaeth yn pennu'r angen am ddatblygu rhagor o dai arbenigol fel model arall o lety yn y gymuned gyda gofal a chymorth, er enghraifft tai â gofal ychwanegol er mwyn dibynnu'n llai ar ofal preswyl.

Opsiwn Ffafriol

Yr opsiwn ffafriol (Opsiwn 3a yn adroddiad y Cabinet, 11 Chwefror 2016) yw cau Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon yn barhaol a sefydlu cartrefi â gofal ychwanegol amgen ar safle presennol y cartref.

Beth yw tai â gofal ychwanegol?

Mae tai â gofal ychwanegol yn fath o gartref gofal arbenigol sy'n cynnig rhywbeth sy'n wahanol i ofal preswyl, gofal nyrsio, a llety cysgodol. Mae tai â gofal ychwanegol yn wahanol i gartrefi gofal traddodiadol, oherwydd:

- mae pobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain
- mae gan bobl eu fflat hunangynhwysol eu hunain sy'n cynnwys un neu ddwy ystafell wely a drws ffrynt eu hun.
- mae modd i gyplau a ffrindiau aros gyda'i gilydd
- mae gan bobl fynediad i gyfleusterau cymunedol ar y safle, gan gynnwys ystafelloedd gweithgareddau, lolfâ gymunedol, bwyty/caffi ac ystafelloedd therapi
- caiff gweithgareddau eu trefnu ar gyfer trigolion
- mae gwasanaethau gofal 24 awr ar gael ar y safle
- mae cymysgedd o bobl yn byw ar y safle sydd ag anghenion gofal gwahanol ac maen nhw'n derbyn gofal i gynnal eu hannibyniaeth.
- mae gan bobl reolaeth dros eu harian eu hun
- mae sicrwydd o ran y tai - y bwriad yw darparu cartref am oes, hyd yn oed os ydy anghenion gofal pobl yn newid ymhen amser

Ar bob adeg, bydd gofal personol a gwasanaethau cymorth ar gael i bob un ar y safle. Bydd y gofal yn cael ei gynyddu neu ei leihau yn ôl angen yr unigolyn wrth i'w anghenion newid. Mae hyn yn golygu y byddai tai â gofal ychwanegol yn darparu ar gyfer pobl sydd ag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys pobl â dementia a phobl sydd angen gofal nyrsio a gofal diwedd oes, a fyddai fel arall yn derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl neu nyrsio.

Y gost amcangyfrifol ar gyfer datblygu cynllun tai â gofal ychwanegol sy'n cynnwys 40 o fflatiau yw tua £7 miliwn. Mae hyn yn seiliedig ar fanyleb a luniwyd ar gyfer cynllun tai â gofal ychwanegol Tonysguboriau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Byddai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Darparwr Tai Lleol i ddatblygu'r cynllun arfaethedig.

Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn cefnogi strategaeth gytûn y Cyngor i gynyddu nifer y tai â gofal ychwanegol a lleihau dibyniaeth ar safleoedd gofal sefydliadol, fel gofal preswyl.

Opsiynau Amgen

Opsiwn 1: Ymateb i faterion cynnal a chadw/ adfywio presennol

Dim ond materion cynnal a chadw presennol Cartref Gofal Maes-y-ffynnon y byddwn ni'n mynd i'r afael â nhw. Gweler y crynodeb isod:

Opsiwn 1a: ailosod y system wresogi a chyflenwad dŵr poeth ac oer y Cartref (h.y. y gwasanaethau mecanyddol) a'r bwyler. Y gost amcangyfrifol ar gyfer opsiwn 1a yw tua £250,000. Bydd y gwaith yn cymryd tua 16 wythnos i'w gyflawni. Byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw hanfodol yn unig ac nid rhannau eraill o'r cartref sydd angen sylw. Ni fydd yr opsiwn hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru presennol neu'n darparu cartref gofal ymarferol ar gyfer y dyfodol.

Opsiwn 1b: yr un fath ag opsiwn 1a, a hefyd yn cynnwys rhaglen waith ychwanegol i fynd i'r afael â materion adfywio/cynnal a chadw, gan gynnwys: gosodiadau trydanol a thoeau; ailosod drysau tân; trwsio/ailosod ffensys; adfywio ystafelloedd ymolchi, ceginau, ystafelloedd gwely a phaentio ac addurno. Y gost amcangyfrifol ar gyfer opsiwn 1b yw tua £998,000. Bydd y gwaith yn cymryd tua 22 wythnos i'w gyflawni. Byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw ac adfywio hanfodol, ond ni fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru presennol neu'n darparu cartref gofal ymarferol ar gyfer y dyfodol.

Ni fydd opsiwn 1 yn cefnogi bwriad comisiynu cytûn y Cyngor i gynnig dewis ehangach a sicrwydd deiliadaeth i bobl hŷn drwy eu dargyfeirio o fodelau llety sefydliadol tuag at dai â gofal ychwanegol.

Nid hwn yw'r opsiwn ffafriol.

Opsiwn 2: Adfywio/ailadeiladu'r Cartref yn llawn i gwrdd â'r safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru presennol.

O dan yr opsiwn hwn, bydd y Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon presennol un ai'n cael ei adfywio neu ei ddymchwel a'i ailadeiladu yn unol â safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i ddarparu gwasanaethau preswyl i bobl â dementia yn unig.

Pe bai Maes-y-ffynnon yn cael ei adfywio i gwrdd â safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer cartrefi gofal, byddai'n rhaid lleihau nifer yr ystafelloedd gwely hyd at 50%, yn ddibynnol ar fanyleb derfynol y cynllun. Er bod yr opsiwn i adfywio'r cartref yn ymarferol, ni fydd yn cynnig gwerth am arian yn y tymor hir oherwydd ei faint a'i ddarbodion maint.

Mae profiad blaenorol wedi dangos mai'r peth gorau i wneud yw dymchwel y cartref gofal presennol a'i adeiladu o'r newydd. Byddai hyn yn golygu cau Maes-y-ffynnon am gyfnod, dymchwel ac ailddatblygu'r safle i greu cartref gofal preswyl newydd i bobl â dementia, yn unol â'r safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru presennol.

Y gost amcangyfrifol ar gyfer dymchwel safle Cartref Gofal Preswyl presennol Maes-y-ffynnon ac ailadeiladu cartref gofal 40 rhandy yw £5.5miliwn, yn ddibynnol ar fanyleb derfynol y cynllun.

Er bod yr opsiwn i ailadeiladu'r cartref yn ymarferol, mae digon o wasanaethau gofal preswyl o'r math hwn ar gael yn Rhondda Cynon Taf sy'n cwrdd â'r gofynion presennol pe bai'r cartref ddim yn ailagor. Yn ogystal, ni fydd yr opsiwn hwn yn cefnogi bwriad comisiynu cytûn y Cyngor i gynnig dewis ehangach a sicrwydd deiliadaeth i bobl hŷn drwy eu dargyfeirio o fodolau llety sefydliadol tuag at dai â gofal ychwanegol.

Nid hwn yw'r opsiwn ffafriol.

Opsiwn 3b: Cau Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon yn barhaol a datblygu tai â gofal ychwanegol amgen ar safle gwahanol yng Nghwm Cynon.

Mae'r opsiwn hwn yn debyg i opsiwn 3a (yr opsiwn dewisol), ond y cynnig yw cau'r cartref Maes-y-ffynnon presennol a datblygu'r cynllun tai â gofal ychwanegol ar safle gwahanol yng Nghwm Cynon (heb ei nodi).

Y gost amcanfygrifol o ddatblygu cynllun tai â gofal ychwanegol o 40 fflat yw tua £7 miliwn.

Mae hyn yn seiliedig ar fanyleb a luniwyd ar gyfer cynllun tai â gofal ychwanegol

Tonysguboriau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd. Ond, nid yw'r ffigwr yn cynnwys y gost i brynu safle gwahanol. Yn rhan o Opsiwn 3b, byddai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Darparwr Tai Lleol i ddatblygu'r cynllun arfaethedig.

Er bod opsiwn 3b ac opsiwn 3a, yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau comisiynu strategol y Cyngor ar gyfer pobl hŷn, hoffai'r Cyngor ailddatblygu'r safle presennol a chynnal y cysylltiadau cadarn sydd eisoes wedi cael eu gwneud â'r gymuned leol, ac yn benodol, y gwaith rhwng-cenedlaethau sydd wedi cael ei wneud ag Ysgol Gynradd Blaengwawr. Byddai hefyd yn osgoi'r angen i fynd i gostau caffael tir ychwanegol ar safle arall.

Nid hwn yw'r opsiwn ffafriol.

HOLIADUR

Mae'r holiadur hwn yn cyd-fynd â'r ddogfen ynghylch dyfodol Maes-y-ffynnon sydd i'w weld ar www.rctcbc.gov.uk/ymgynggori Cyfeiriwch at y ddogfen hon cyn i chi lenwi'r holiadur.

C1. Ydych chi'n:

- ☐ Rhywun sy'n byw yng nghartref gofal preswyl Maes-y-ffynnon
- ☐ Aelod o deulu rhywun sy'n byw yng nghartref gofal preswyl Maes-y-ffynnon
- ☐ Aelod o staff cartref gofal preswyl Maes-y-ffynnon
- ☐ Aelod o'r cyhoedd
- ☐ Arall (nodwch):

Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan y Cyngor yw Opsiwn 3a - Cau Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon yn barhaol a sefydlu cartrefi gofal ychwanegol amgen ar safle presennol y cartref.

C2. Ydych chi'n cytuno â'r opsiwn ffafriol, sef opsiwn 3a? ☐ Ydw ☐ Nac Ydw ☐ Ddim yn siŵr

C3. Os ydych chi'n anghytuno ag opsiwn ffafriol y Cyngor (Opsiwn 3a), nodwch pam a'r hyn fydddech chi'n ei argymhell yn ei le?

.....

.....

.....

.....

C4. Sut byddai'r cynnig hwn yn effeithio arnoch chi neu eich teulu?

.....

.....

.....

.....

C5. Ydych chi'n meddwl y dylai un o'r opsiynau canlynol gael ei ffafrio yn lle opsiwn 3a?

	Ydw	Nac Ydw	Ddim yn siŵr
Opsiwn 1a: mynd i'r afael â materion cynnal a chadw presennol ac ailosod gwasanaethau mecanyddol y cartref a'r bwyler.	☐	☐	☐
Opsiwn 1b: yr un fath yr un fath ag opsiwn 1a, a hefyd yn cynnwys rhaglen waith ychwanegol i fynd i'r afael â materion adfywio.	☐	☐	☐
Opsiwn 2: Adfywio/ailadeiladu'r Cartref yn llawn i gwrdd â'r safonau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru presennol.	☐	☐	☐
Opsiwn 3b: Cau Cartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon yn barhaol a sefydlu tai â gofal ychwanegol ar safle gwahanol yng Nghwm Cynon.	☐	☐	☐

C6. Os ydych chi'n meddwl y dylai un o'r opsiynau uchod gael ei ffafrio yn lle opsiwn 3a, nodwch pam?

.....

.....

.....

.....

.....

C7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

.....

.....

.....

.....

.....

Amdanoch chi

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ymchwilio sut bydd ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl eraill.

Nodwch a ydych chi'n meddwl y byddai'r cynigion hyn yn effeithio arnoch chi oherwydd y canlynol:

- | | | |
|--|--|--|
| ☐ Rydych chi'n ddyn / menyw | ☐ Eich oedran | ☐ Eich ethnigrwydd |
| ☐ Rydych chi'n anabl | ☐ Eich rhywioldeb | ☐ Eich crefydd neu gred |
| ☐ Eich hunaniaeth o ran rhyw | ☐ Rydych chi'n feichiog | |
| ☐ Yr iaith sy'n well gennych chi gyfathrebu ynddi | ☐ Rydych chi'n sengl / wedi priodi / cyd-fyw â phartner / mewn partneriaeth sifil / wedi ysgaru | |

Nodwch eich rheswm/rhesymau:

.....

.....

Os ydych chi'n **fodlon i ni gysylltu â chi** i drafod eich atebion, ticiwch y blwch perthnasol:

- ☐ **Rydw i'n fodlon** i rywun gysylltu â mi ☐ **Dydw i ddim yn fodlon** i rywun gysylltu â mi

Enw:

Ebost / Rhif ffôn:

Cod Post:

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn prosesu'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Mae'n bosib y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol ond bydd eich manylion personol yn ddiennw.

Cliciwch 'Cyflwyno' i gwblhau'r holiadur ar-lein, neu os ydych chi'n llenwi'r holiadur ar bapur, anfonwch yn ôl at: Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS, Ymchwil ac Ymgynghori, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth, Y Pafiliynau, Parc Diwydiannol y Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX

Neu, cyflwynwch eich sylwadau cyffredinol i ni drwy: **ymgynggori@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

Neu, cyflwynwch eich sylwadau yn ysgrifenedig (i'r cyfeiriad Rhadbost uchod)

